Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc

Gwanwyn 2018

Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Sir Y Fflint yn gyfrifol am yr holl ysgolion yn ein hardal.

Rydym yn rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi ysgolion.

Ein Hamcanion

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn i ddysgu mewn ysgolion rhagorol yn ein hardal.
- Sicrhau adeiladau ysgol cryf a diogel.
- Sicrhau fod arian i blant ac ysgolion yn ein hardal yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi'r cyfle i bawb gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i sicrhau y clywir y llais hwnnw ac y gwrandewir arno.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

'Mae gan blant yr hawl i ddweud beth y maent yn credu ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a dylai eu safbwyntiau gael eu hystyried'.

Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Am wybodaeth ynglŷn â Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc ewch i:

http://www.youngwales.wales/images/ParticipationStandards_Poster_9.pdf

Newidiadau

Nid yw bob amser yn bosibl i bob ysgol aros fel y maent ac weithiau golyga hyn fod angen i'r Cyngor wneud rhai newidiadau pwysig.

Gall newidiadau helpu i roi'r cyfle gorau i bawb ddysgu, yn yr ysgol orau bosib.

Beth mae hyn yn ei olygu?

Gall hyn olygu y byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn uno ar 1 Medi 2019.

Pe byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn uno fe fyddech yn aros yn eich ysgolion i ddechrau, a byddech yn rhannu un pennaeth ac un Corff Llywodraethu

Beth fyddai'n newid?

Pe byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn uno, byddech yn cael gwisg ysgol newydd a byddai gan yr ysgol enw newydd.

Yn y dyfodol, fe allwn ofyn i'r Cyngor a Llywodraeth Cymru am arian i godi estyniad ac ailfodelu'r ysgol ar safle Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd. Byddai hyn yn golygu y byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn cau a byddech yn mynd i'r Ysgol Ardal newydd ym Mrynffordd.

Faint o amser fyddai pethau yn ei gymryd?

Cyfnod ymgynghori

Cyfnod Gwrthwynebu

Mawrth/Ebrill/Mai 2018

Pobl yn dweud wrthym beth yw eu barn.

Mai 2018

Byddwn yn casglu'r holl ymatebion ac yn dweud wrth bawb beth yw'r prif sylwadau.

Mehefin 2018

Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod i benderfynu beth i'w wneud nesaf. Byddwn wedyn yn rhoi gwybod i bawb beth yw'r penderfyniad.

Medi 2018

Os cytunir i hynny byddai'r Cyngor yn hoffi uno'r ddwy ysgol, bydd yna Gyfnod Gwrthwynebu.

Tachwedd 2018

Ar ddiwedd y Cyfnod Gwrthwynebu bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad a yw am uno Ysgolion Brynfforddd a Licswm.

Medi 2019

Bydd unrhyw newidiadau a gytunir yn dechrau o'r dyddiad hwn.

Eisiau gwybod mwy?

Os ydych am wybod mwy, mae yna wybodaeth mewn dogfen llawer mwy ar y rhyngrwyd ar gyfer rhieni, gofalwyr, athrawon, staff, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned ysgol. Ewch i:

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation

Beth yw eich barn chi?

Mae'n bwysig iawn ein bod yn siarad â llawer o wahanol bobl am y syniad hwn, yn arbennig plant. Mae eich barn yn bwysig i ni.

Yn y llyfryn hwn gallwch ysgrifennu unrhyw beth y dymunwch ei ddweud wrthym ac unrhyw syniadau y gallai fod gennych.

I ba ysgol yr ydych yn mynd ar hyn o bryd a faint yw eich oed?

Ysgrifennwch eich atebion yn y blwch os gwelwch yn dda

Sut fyddech chi'n teimlo pe byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn cau?

Dywedwch wrthym beth yw eich barn os gwelwch yn dda drwy ysgrifennu eich atebion yn y blwch

Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yn digwydd yn lle hynny?

Dywedwch wrthym beth yw eich barn os gwelwch yn dda drwy ysgrifennu eich atebion yn y blwch

A hoffech chi ddweud unrhyw beth arall?

Ysgrifennwch eich atebion yn y blwch os gwelwch yn dda

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Postiwch eich llyfryn wedi ei gwblhau i ni erbyn **Dydd Iau 10 Mai 2018** os gwelwch yn dda. Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth yr ydych yn ei anfon i ni ar ôl y dyddiad hwn.

Cyfeiriad: Y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir Y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NB.

Neu gallwch e-bostio eich sylwadau i 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Beth fydd yn digwydd i'ch gwybodaeth?

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD:
Hoffai Cyngor Sir Y Fflint dderbyn eich safbwyntiau i helpu i wneud penderfyniad ar y cynllun i uno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm o 1 Medi 2019.
Bydd yr wybodaeth yn cael ei chasglu ar-lein drwy Survey Monkey. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi cau, bydd yr wybodaeth yn cael ei lawrlwytho a'i storio o fewn Canolfan Ddata'r Cyngor, cyn cael ei dileu o Survey Monkey. Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw am dair blynedd, gyda'r flwyddyn y cesglir yr wybodaeth yn ychwanegol at hynny. Dim ond i'r diben hwn y bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn cael ei defnyddio. Fe allai'r wybodaeth gael ei rhannu gyda Swyddogion y Cyngor a Chynghorwyr Sir sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad, er mwyn sicrhau fod eich safbwyntiau'n cael eu clywed ac i ganiatáu codi ac ymdrin ag unrhyw faterion y gallai fod gennych.
Mae casglu'r wybodaeth hon yn unol ag Erthygl 6.1. (e) o Reoliad Amddiffyn Data Cyffredinol yr UE.
Gellir cael mwy o wybodaeth am sut y mae'r Cyngor yn prosesu data personol, eich hawliau a manylion cyswllt ar gyfer y Tîm Amddiffyn Data drwy'r ddolen ganlynol:

http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Data-Protection-and-Freedom-of-Information/Privacy-Notice.aspx"

Diolch yn fawr